

# Tyfu Canolbarth Cymru Mehefin 2025

**Croeso i rifyn mis Mehefin o'r Cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru!**

Mae'r diweddariad y mis hwn yn tynnu sylw at gynnydd cyffrous ar draws y rhanbarth - o gam cyntaf prosiect Cynefin yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen sy'n derbyn cefnogaeth y Fargen Twf, i fentrau newydd a gefnogir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin sy'n helpu busnesau a chymunedau i ffynnu.

Rydym hefyd yn tynnu sylw at y llwyddiannau cyllido Technoleg Amaeth a Bwyd ddiweddaraf, gyda chystadleuaeth newydd bellach ar agor i gefnogi hyd yn oed mwy o arloesedd.Wrth edrych ymlaen, rydym yn paratoi ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru a fydd yn wythnos brysur, lle bydd Tyfu Canolbarth Cymru a'i bartneriaid yn arddangos prosiectau a chyfleoedd rhanbarthol drwy gydol yr wythnos. Rydym yn gobeithio gweld llawer ohonoch yno wrth i ni barhau i hyrwyddo twf a chydweithredu ar draws Canolbarth Cymru.Diolch am ddarllen - ac am fod yn rhan o'r daith i dyfu cyfleoedd yng Nghanolbarth Cymru.

**Tîm Tyfu Canolbarth Cymru**

[Clawr: Drôn o CyDA Golygfa hydrefol dros y Ganolfan Dechnoleg Amgen ym Machynlleth, Powys.CREDYD: © Hawlfraint y Goron / © Crown copyright (2019) Cymru Wales]

**Cynnwys**


- Buddsoddiad Cam 1 wedi'i ddatgloi ar gyfer prosiect trawsnewidiol yn CyDA

- Newyddion y Gronfa Ffyniant Gyffredin
- Hwb i arloesi ym maes Technoleg Amaeth a Thechnoleg Bwyd yng nghanolbarth a gogledd Cymru  - a fanylion ar gystadleuaeth newydd!
- Cronfa Buddsoddi mewn Eiddo Masnachol Canolbarth Cymru – Diweddariad yr Alwad Agored
- Datgloi potensial: Busnesau ar draws Canolbarth a Gogledd Cymru yn archwilio cyflogi pobl sy'n gadael y carchar
- Diolch a chroeso cynnes
- Darganfyddwch beth sy'n digwydd ar draws Canolbarth Cymru yn Sioe Frenhinol!
- Newyddion eraill

## Newyddion Bargen Twf Canolbarth Cymru

### Buddsoddiad Cam 1 wedi'i ddatgloi ar gyfer prosiect trawsnewidiol yn CyDA

Mae Cytundeb Twf Canolbarth Cymru wedi cymryd cam mawr arall ymlaen gyda chymeradwyo cyllid ar gyfer cam cyntaf prosiect Cynefin, dan arweiniad Canolfan y Dechnoleg Amgen (CyDA) ger Machynlleth.

Ar 25 Mehefin, cymeradwyodd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru gymorth ar gyfer gwaith dylunio a manylebau manwl i ddod ag elfennau allweddol o'r prosiect trawsnewidiol hwn i'r pwynt cyflawni.

Mae hyn yn cynnwys:

- Ailfodelu sylweddol a diogelu adeilad WISE (Sefydliad Cymru ar gyfer Addysg Gynaliadwy) i’r dyfodo
- lAdnewyddu Bythynnod y Chwarel
- Uwchraddio sylweddol i Theatr Byrnau Gwellt

Darllenwch y stori lawn ar ein gwefan.



*1 - Adeilad CAT WISE Adeiladwyd Sefydliad Addysg Gynaliadwy Cymru (WISE) yn 2010 fel cartref i gyrsiau a hyfforddiant ôl-raddedig CAT. Fe'i cynlluniwyd i gael effaith amgylcheddol isel iawn wrth adeiladu ac wrth gael ei ddefnyddio, ac mae'n enghraifft effeithiol ac arddangosiad o dechnegau adeiladu cynaliadwy.*

*Credyd: Tim Soar*

## Newyddion y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Dyma grynodeb o rai datblygiadau allweddol yn y rhanbarth sy'n tynnu sylw at gyfleoedd a llwyddiannau a wnaed yn bosibl trwy y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

**Cyngor Sir Ceredigion yn lansio Cynllun i Raddedigion**

Mae Cynllun i Raddedigion newydd sbon wedi cael ei lansio sy’n cynnig cyfleoedd i raddedigion diweddar ddatblygu eu gyrfaoedd mewn amrywiaeth o feysydd allweddol.

kMae’r cynllun ar agor i raddedigion gyda graddau perthnasol, gyda chwe chyfle ar gael yn y meysydd canlynol:

- Cynllunio, Rheoli Adeiladu a Rheoli
- DatblyguLleihau Carbon, Ynni a Rheoli Asedau
- Peirianneg Cyfreithiol
- Diogelu’r Cyhoedd (Iechyd yr Amgylchedd neu Safonau Masnach)
- Gwaith Ieuenctid

Darllenwch y stori lawn ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.

**Cymorth i gymunedau a busnesau yng Ngheredigion**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu Cronfa Cynnal y Cardi a ariennir gan Lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Ar ddydd Mercher, 18 Mehefin agorwyd dwy gronfa sy’n cynnig cyfleoedd cyllid.

- Cronfa Gymorth Cynnal y Cardi ar gyfer Datblygu Cymunedol (£1,000 a lan i £50,000): Darparu cefnogaeth i gymunedau a fydd yn cynnwys cymorth ar gyfer gwariant refeniw a gwelliannau cyfalaf.
- Cronfa Cyfalaf Busnes Cynnal y Cardi (£5,000 a lan i £50,000): Darparu cymorth ar gyfer prosiectau gwariant cyfalaf a gwariant refeniw arbenigol.

Darllenwch y stori lawn ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.

**Caru'ch Cymuned, categori newydd ar gyfer Gwobrau Caru Ceredigion 2025**

Mae ceisiadau ar agor ar gyfer categori newydd yng Ngwobrau Caru Ceredigion 2025. Bydd gwobrau Caru'ch Cymuned yn cydnabod ac yn dathlu gwaith cymunedau trefi a phentref

ledled Ceredigion wrth gadw eu cymuned yn daclus, trefnu digwyddiadau a darparu gwasanaethau i bobl yr ardal. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen Mynegi Diddordeb yw hanner nos ddydd Llun 7 Gorffennaf 2025.

Darllenwch y stori lawn [ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.]




**Busnes yn paratoi ar gyfer cwmni sawna**

Mae gwneuthurwr sawna yn bwriadu cynyddu cynhyrchiant ar ôl symud i safle newydd ym Mhowys sydd dair gwaith yn fwy na'i safle blaenorol.

Cafodd Heartwood Saunas gymorth i symud o Bantperthog ar y ffin rhwng Powys a Gwynedd i bentref Glantwymyn, ar ochr arall Machynlleth, gan Grant Twf Busnes Cyngor Sir Powys o £25,000.

Roedd yn un o 71 o gwmnïau a gefnogwyd y llynedd, trwy gynllun Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

Darllenwch y stori lawn ar [wefan Cyngor Sir Powys.]

## Hwb i arloesi ym maes Technoleg Amaeth a Thechnoleg Bwyd yng nghanolbarth a gogledd Cymru - a fanylion ar gystadleuaeth newydd!

Mae ton newydd o arloesi'n digwydd ar draws y canolbarth a'r gogledd wrth i fusnesau blaengar gael cymorth yn rhan o gynllun gan Innovate UK, sef Meithrin Arloesi yn y Clwstwr Technoleg Amaeth a Thechnoleg Bwyd ar gyfer Canolbarth a Gogledd Cymru.

Mae cystadleuaeth newydd hefyd wedi agor, gan gynnig cyfle i ragor o fusnesau wneud cais am gyllid — gweler isod am fanylion.

Mae'r sawl sydd wedi cael cyllid yn fwyaf diweddar yn hybu atebion i rai o heriau mwyaf y sector — o gynhyrchu cynaliadwy a diogelwch bwyd i brosesu clyfar a roboteg. Mae 13 o gwmnïau wedi cael cefnogaeth i archwilio syniadau a allai drawsnewid y diwydiant bwyd a ffermio.

Mae pob prosiect wedi cael cyllid dan lwybr Cymorth Ariannol Lleiaf y rhaglen a ariennir gan Innovate UK, a bwriad y cyllid yw galluogi prosiectau Ymchwil a Datblygu a dichonoldeb ar raddfa fach. Mae'r cymorth hwn yn galluogi busnesau i roi prawf ar syniadau, eu treialu a'u datblygu — syniadau y gellir eu gweithredu ar raddfa fwy yn nes ymlaen drwy ragor o gyllid i arloesi.

Darganfyddwch ychydig mwy am y 13 prosiect a gafodd gyllid ar [ein gwefan.]()

Bydd cystadleuaeth ariannu newydd gan Innovate UK yn agor ar 30 Mehefin 2025, gan gynnig cyfleoedd pellach i fusnesau Technoleg Amaeth a Thechnoleg Bwyd yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru i gael cymorth arloesi. Anogir busnesau i gofrestru ar gyfer y gweminar briffio i ymgeiswyr ar 3 Gorffennaf 2025, a fydd yn rhoi arweiniad manwl ar sut i wneud cais ac ar beth sy'n gwneud cais cryf. Mae rhagor o fanylion am y gystadleuaeth a'r gweminar (yn y tab 'Dates') ar gael ar dudalen gystadleuaeth Innovate UK: https://apply-for-innovation-funding.service.gov.uk/competition/2212/overview/4411087f-2a92-4aed-b735-d1a813376bec#summary




### 📢 Yn galw ar yr holl arloeswyr Technoleg Amaeth a Thechnoleg Bwyd!

Ymunwch â ni a gweddill y tîm Meithrin Arloesi yn y Clwstwr Technoleg Amaeth a Thechnoleg  Bwyd ar gyfer digwyddiad Canolbarth a Gogledd Cymru yn Sioe Frenhinol

Cymru ar 21 Gorffennaf (14:30–16:30, Tŵr Brycheiniog, Adeilad 516) am brynhawn o fewnwelediad, gwybodaeth ariannu a rhwydweithio.

✔ Darganfod straeon llwyddiant a ariennir gan Innovate UK

✔Gwrandewch ar beth sy'n gwneud cais buddugol

✔ Cwrdd â busnesau, cyllidwyr a phartneriaid ymchwil sy'n gyrru'r sector ymlaen

✔ Gwybodaeth am sut i ymuno â'r clwstwr

Mae lleoedd yn gyfyngedig – cofrestrwch ar Eventbrite cyn 17 Gorffennaf ond cofiwch sicrhau eich tocyn Sioe ymlaen llaw.

🎟 Archebwch eich lle Eventbrite nawr: https://bit.ly/AgriTechFoodTechEvent

Ydych chi'n adnabod busnes a ddylai fod yno? Rhannwch y neges hon a'n helpu i dyfu cymuned y Clwstwr!




## Cronfa Buddsoddi mewn Eiddo Masnachol Canolbarth Cymru – Diweddariad yr Alwad Agored

Yn dilyn lansiad llwyddiannus Cronfa Buddsoddi mewn Eiddo Masnachol Canolbarth Cymru ym mis Mai, rydym wedi derbyn diddordeb cryf gan fusnesau ledled y rhanbarth.

Daeth yr alwad agored am ymholiadau cychwynnol i ben ar 12 Mehefin 2025. Rydym bellach wedi gwahodd busnesau cymwys i gyflwyno Cynnig Hyfywedd ar gyfer eu prosiectau o fewn dau fis – y cam nesaf yn y broses ymgeisio. Bydd y rhai sy'n llwyddiannus yn y cam hwnnw yn cael eu gwahodd wedyn i ddatblygu Cynnig Datblygedig llawn.

Mae'r broses gam wrth gam hon yn sicrhau asesu trylwyr ac yn cefnogi busnesau i ddatblygu cynigion o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd ag amcanion y gronfa.

👉 Dysgwch fwy am y gronfa

**Bydd unrhyw ddiweddariadau newydd ar y gronfa yn cael eu cynnwys mewn cylchlythyrau yn y dyfodol – cadwch lygad allan.**



## Datgloi potensial: Busnesau ar draws Canolbarth a Gogledd Cymru yn archwilio cyflogi pobl sy'n gadael y carchar

Daeth dau ddigwyddiad rhanbarthol a gynhaliwyd ym mis Ebrill â chyflogwyr, sefydliadau cymorth a chynrychiolwyr y sector cyfiawnder ynghyd i archwilio cyfleoedd a manteision cyflogi pobl sy'n gadael carchar yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru.

Cynhaliwyd y digwyddiadau gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru a Gogledd Cymru (PSRh) mewn cydweithrediad â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), ac roedd yn anelu at herio canfyddiadau a thynnu sylw at botensial y gweithlu hwn sydd heb ei ddefnyddio.

Roedd y digwyddiadau hefyd yn nodi lansiad Pecyn Cymorth Cyflogwyr newydd Llywodraeth Cymru, a gynlluniwyd i ddarparu arweiniad ac adnoddau i fusnesau sydd â diddordeb mewn recriwtio pobl sy'n gadael y carchar: Cyflogadwyedd Troseddwyr | Busnes Cymru

Darllenwch y stori lawn ar wefan Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru.



## Diolch a chroeso cynnes



*2 - Cynghorydd Jake Berriman, Arweinydd Cyngor Sir Powys*

**Croeso i'r Cynghorydd Jake Berriman**

Mae'n bleser gennym groesawu'r Cynghorydd Jake Berriman, Arweinydd Cyngor Sir Powys, fel Cyd-gadeirydd newydd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru. Mae'r Cynghorydd Berriman yn dod â hanes cryf mewn arweinyddiaeth strategol ac angerdd dros gefnogi twf rhanbarthol. Edrychwn ymlaen at weithio gydag ef i fwrw ymlaen â'n huchelgeisiau cyffredin ar gyfer Canolbarth Cymru.

Hoffem estyn ein diolch yn ddiffuant i'r Cynghorydd James Gibson-Watt am ei gyfnod fel Cadeirydd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru. Mae ei arweinyddiaeth a'i ymrwymiad wedi bod yn allweddol wrth hyrwyddo uchelgeisiau twf y rhanbarth a chryfhau ein partneriaethau. Rydym yn ddiolchgar am ei gyfraniad a'i gefnogaeth barhaus.

**Diolch i Nicola Williams**

Wrth i Nicola Williams ymddeol, hoffem ddiolch yn ddiffuant iddi am yr ymroddiad, yr egni a'r arbenigedd a ddaeth i Tyfu Canolbarth Cymru fel Arweinydd Strategol ar y cyd dros y blynyddoedd. Mae ei chyfraniadau wedi chwarae rhan hanfodol wrth lunio ein gwaith, ac rydym yn dymuno ymddeoliad hapus a boddhaus iddi.

## Darganfyddwch beth sy'n digwydd ar draws Canolbarth Cymru yn Sioe Frenhinol!




Mae Cynghorau Sir Ceredigion a Phowys yn gwahodd ymwelwyr i'r Sioe Frenhinol i alw heibio drwy gydol wythnos y sioe (21-24 Gorffennaf) i archwilio ystod gyffrous o arddangosfeydd a gweithgareddau sy'n rhyngweithiol ac yn addysgiadol i'r cyhoedd.

Wedi'i leoli ychydig oddi ar y brif rodfa, ger y Brif Gylch, bydd adeilad Tŵr Brycheiniog yn gartref i raglen lawn o stondinau sy'n tynnu sylw at arloesedd lleol, gwasanaethau cymorth, a datblygiadau cyffrous yn y dyfodol sy'n digwydd ledled Canolbarth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#).




## Newyddion eraill

## Argymhelliad i wrando..

🎧 Sgwrs ddifyr am ddyfodol bwyd ac amaeth yng Nghymru!Mae'r bennod hon o bodlediad M-Sparc yn archwilio sut mae cydweithio ac arloesi yn y sector amaeth-fwyd yn cefnogi cymunedau gwledig, yn hybu economïau lleol, ac yn gyrru twf cynaliadwy ledled Cymru. Gwerth gwrando i unrhyw un sydd â diddordeb yn y diwydiant amaeth-fwyd, datblygiad rhanbarthol, neu bŵer clwstwr i gael effaith wirioneddol.

📍 Darganfyddwch fwy am Glwstwr Technoleg Amaeth a Bwyd ar gyfer Canolbarth a Gogledd Cymru yma:https://www.tyfucanolbarth.cymru/TechAmaethTechBwyd

🎧 Gwrandewch yma: https://bit.ly/43PgwIY




## Yw Powys yn cyd-fynd ag uchelgeisiau eich busnes?

Gofynnir i fusnesau sydd am ehangu neu adleoli i Bowys, ond sy’n methu dod o hyd i safle neu adeilad addas, i roi gwybod i'r cyngor.

Gallant ddefnyddio’r ffurflen arlein hon i roi manylion am eu huchelgeisiau a'r hyn maent ei angen i'w gwireddu: https://powysapi.evolutive.co.uk/form/anonymousform/67d2d993b18d8d42d1a24c95?&redirecturl=

Mae'r cyngor hefyd eisiau clywed gan fusnesau fydd angen safleoedd neu adeiladau newydd yn y dyfodol.

"Rydym am helpu busnesau Powys i gyrraedd eu potensial llawn, felly rhowch wybod i ni os gallwn wneud unrhyw beth i'ch helpu i ddod o hyd i'r safle neu'r eiddo newydd sydd ei angen arnoch nawr neu mewn ychydig flynyddoedd," meddai'r Cynghorydd James Gibson-Watt, Aelod Cabinet Cyngor Sir Powys dros Bowys Fwy Ffyniannus. "Ein huchelgais yw creu Powys gryfach, decach a gwyrddach a gallwn ond gwneud hynny gydag economi ffyniannus sy'n cynnig digon o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth sy'n talu'n dda.

"Os ydych yn ystyried adleoli, neu ddechrau busnes ym Mhowys, yna rydym yma i helpu. Cysylltwch â ni i drafod y posibiliadau."

Dylai unrhyw un sydd â chwestiynau am ddatblygu economaidd ym Mhowys anfon ebost at: economicdevelopment@powys.gov.uk




*3 -  Unedau busnes ar Barc Menter Tal-y-bont ychydig y tu allan i'r Trallwng.*

## Gwobrau Busnes Powys – cofrestrwch erbyn 27 Gorffennaf!

🌟 Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol canolbarth Cymru yn falch iawn o noddi'r categori newydd, sef **Gwobr Partneriaeth Busnes ac Addysg**, fel rhan o **Wobrau Busnes Powys 2025**!

Mae'r wobr hon yn dathlu cydweithio rhagorol rhwng cyflogwyr a sefydliadau addysg. Mae'n cydnabod partneriaethau sy'n helpu i siapio tirwedd sgiliau'r rhanbarth ac yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf drwy uchelgais a chydweithrediad. 📢 Ydych chi'n rhan o bartneriaeth lwyddiannus rhwng busnes ac addysg yng Nghanolbarth Cymru? Sicrhewch eich bod yn enwebu! Manylion yma 👉 https://mailchi.mp/1627a86fb726/mwmg-ebulletin-7-9-5857840?e=a2ac09fd0d

## Edrych ymlaen

Hoffech chi ddal fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Cofiwch, gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol yma:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

https://www.youtube.com/@TCC-GMW

Rydym yn awyddus i gyrraedd gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales